Polisi Dysgu ac Addysgu

Policy for Learning and Teaching

Diweddarwyd / *Updated*: 10/2026

Adolygiad Nesaf / *Next Review*: 10/2027

Ysgol Gymraeg Y Fenni
Llwynu Lane
Y Fenni | Abergavenny
Sir Fynwy | Monmouthshire
NP7 6AR

Ffôn | Tel: 01873 852388
Ebost | Email: ysgolgymraegyfenni@monmouthshire.gov.uk
Gwefan | Website: www.ysgolyfenni.co.uk


Cyflwyniad

Yn Ysgol Gymraeg Y Fenni rydym yn credu yn y cysyniad o ddysgu dilys gydol oes, rydym yn credu bod dysgu yn broses barhaus i oedolion a phlant. Credwn y dylai dysgu fod yn broses werth chweil ac yn bleserus i bawb; dylai fod yn hwyl, yn gynhwysol ac yn ddiddorol. Trwy ein haddysgu rydym yn darparu'r sgiliau, y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r gwerthoedd i'r plant a fydd yn eu galluogi i ddod yn ddinasyddion gwybodus a moesegol. Credwn fod profiadau dysgu cyfoethog yn helpu i danio dychymyg a datgloi potensial. Ein nod yw meithrin dysgwyr hyderus, annibynnol sydd â chariad gydol oes at ddysgu. Mae gennym y disgwyliadau uchaf o bob plentyn ac mae plant yn cael eu hysbrydoli a'u herio i ragori a symud ymlaen ar hyd eu teithiau dysgu unigol. Mae ein cwricwlwm yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth o'n treftadaeth, ein diwylliant a'n hardal leol. Mae ymdeimlad cryf o hunaniaeth Gymreig yn sail i'n harferion addysgu a dysgu, gan helpu dysgwyr i gysylltu â'u hiaith a'u hunaniaeth leol.

Ein nod yw darparu cwricwlwm eang a chytbwys gyda phrofiadau o ansawdd uchel sy'n ysgogi ac yn ennyn diddordeb dysgwyr. Credwn hefyd y dylai'r Pedwar Diben bod yn ganolog i bob gweithgaredd dysgu ag addysgu sy'n digwydd yn ein hysgol ni. Mae Pedwar Diben y cwricwlwm, fel yr amlinellir yn Dyfodol Llwyddiannus, wedi bod yn sail i'r holl waith o gynllunio a datblygu Cwricwlwm i Gymru 2022. Mae ein 'cwricwlwm' yn cynnwys yr holl brofiadau dysgu a gweithgareddau asesu a gynlluniwyd er mwyn cyflawni'r Pedwar Diben, sef datblygu plant a phobl ifanc i fod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- ddinasyddion egwyddorol, gwybodus Cymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae'r polisi yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth yr 12 egwyddor addysgu sy'n sail i gwricwlwm newydd Cymru.



Nod ac Amcanion

Credwn fod pobl yn dysgu mewn ffyrdd gwahanol. Yn ein hysgol, rydym yn darparu profiadau cyfoethog ac amrywiol sy'n galluogi plant i ddatblygu eu sgiliau a'u galluoedd yn llawn.

- galluogi'r plant i ddod yn ddysgwyr hyderus, uchelgeisiol, dyfeisgar, ymchwiliol ac annibynnol.
- ddatblygu ac annog meddwl medrus.
- modelu nad yw gwneud camgymeriadau yn beth ddrwg ond yn ffordd o ddysgu. Annog y plant i gymryd risgiau ac i fod yn agored i bethau newydd.
- hybu hunan hyder plant a dathlu mai fi yw fi a deall bod eu llais yn bwysig.

- datblygu hunan barch plant, ac annog y plant i barchu eraill, a'u syniadau, eu hagweddau, eu gwerthoedd a'u teimladau.
- dangos parch tuag at ddiwylliannau eraill, a hybu agwedd gadarnhaol tuag at eraill.
- galluogi'r plant i ddeall eu cymuned a'u cynorthwyo i deimlo'n rhan werthfawr o'r gymuned honno.
- cynorthwyo'r plant i dyfu'n ddinasyddion egwyddorol, dibynadwy, annibynnol a chadarnhaol.
- datblygu plant iach sy'n deall pwysigrwydd cadw'n heini ac sy'n ymwybodol o strategaethau meddylgarwch i'w helpu i ddelio gyda sefyllfaoedd heriol.
- galluogi'r plant i feddwl yn greadigol ac i ddatblygu eu creadigrwydd drwy berfformio, cyflawni gwaith celf ac yn y blaen.

Addysgu a Dysgu Llwyddiannus
Rydyn ni'n cydnabod bod pobl yn dysgu mewn ffyrdd gwahanol, a gwelwn fod angen datblygu strategaethau sy'n caniatáu i blant ddysgu mewn ffyrdd sy'n gweithio iddynt. Mae'r seicolegwr Howard Gardner yn nodi saith prif adran o allu: ieithyddol, mathemategol/rhesymegol, gweledol/gofodol, cinesthetig, cerddorol, rhyngbersonol/gweithio mewn grŵp, a rhyngbersonol/reflective. Rydyn ni'n ystyried hyn wrth gynllunio ein gwersi a'n harddull addysgu.

Rydyn ni'n rhoi cyfle i blant dysgu mewn ffyrdd gwahanol, er enghraifft:
- archwilio a datrys problemau
- ymchwilio a darganfod
- gwaith grŵp
- gwaith parau
- gweithio'n annibynnol
- gweithio fel dosbarth cyfan
- gofyn ac ateb cwestiynau
- defnyddio offer TGCh
- gwaith maes ac ymweliadau addysgiadol
- gweithgareddau creadigol
- gwylio clipiau ac ymateb i gerddoriaeth neu ddeunydd ar dâp
- trafodaethau, chwarae rôl a chyflwyniadau llafar
- dylunio a chreu pethau
- cymryd rhan mewn gweithgareddau athletaidd neu gorfforol

Wrth addysgu rydyn ni'n canolbwyntio ar ysgogi plant, ac adeiladu ar eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cwricwlwm. Rydyn ni'n defnyddio cynlluniau cwricwlwm yr ysgol yn arweiniad i'n haddysgu. Mae'r cynlluniau yn gosod y manylion am yr hyn sydd i'w addysgu i bob blwyddyn ysgol a Cham Cynnydd. Mae plant yn dysgu o brofiad uniongyrchol, tu fewn a thu allan i'r dosbarth.

Rydyn ni'n selio'n haddysgu ar ein gwybodaeth o lefel cyrhaeddiad y plant. Ein prif ffocws yw datblygu sgiliau a gwybodaeth y plant ymhellach, ymestyn pob plentyn ac yn eu haddysgu am bwysigrwydd datblygu meddylfryd twf. Rydyn ni'n ymdrechu i sicrhau bod y tasgau yn addas i lefel gallu'r plant unigol. Mae gweithgareddau a chysyniadau wedi gwahaniaethu yn ôl angen i sicrhau bod pob dysgwr wedi eu cefnogi a'i ymestyn. Wrth gynllunio gwaith ar gyfer y plant sydd ag anghenion ychwanegol rydyn ni'n talu sylw priodol i'r wybodaeth a'r targedau a osodwyd allan yn y Cynlluniau Addysgu Personol/Proffil Un Tudalen. Mae gennym ddisgwyliadau uchel o'r holl blant, a chredwn fod eu gwaith yma yn Ysgol Gymraeg Y Fenni o'r safon uchaf posibl.

Er mwyn sicrhau bod ein disgyblion yn cymryd perchnogaeth o'u dysgu, wrth gynllunio themâu traws-gwricwlaidd neu dasgau cyfoethog, bydd cyfraniad y disgyblion wrth wraidd y broses gynllunio, addysgu a dysgu.

Strategaethau dysgu ac addysgu

Ein staff addysgu yw ein hadnodd dysgu ac addysgu mwyaf dylanwadol. Credwn fod addysgu effeithiol yn cynnwys yr elfennau a restrir isod:

Chwarae a dysgu drwy chwarae
Dysgu yn yr awyr agored
Cynllunio a pharatoi effeithiol gydag amcanion dysgu clir wedi cynllunio ar y cyd.
Gwybodaeth, dealltwriaeth ac eglurder y pwnc.
Creu amgylchedd cefnogol.
Gwneud y mwyaf o'r cyfle i ddysgu.
Ansawdd y cyfarwyddyd
Rheoli ystafell ddosbarth (Gweler y polisi rheoli ymddygiad)
Datblygiad proffesiynol
Asesu ac Adborth (Gweler y polisi asesu)

Chwarae a dysgu drwy chwarae
Mae chwarae yn hawl sylfaenol i bob dysgwr. Mae gan blant awydd cryf i chwarae. Drwy chwarae a phrofiadau chwareus, gall dysgwyr ddod o hyd i ffyrdd o brofi ystod o emosiynau a dysgu am y byd y maent yn byw ynddo gydag eraill. Mae chwarae a dysgu drwy chwarae yn cefnogi datblygiad holistig ar draws y cwricwlwm. Dylai ymarferwyr oll ei werthfawrogi, nid yn unig fel rhywbeth sy'n werthfawr ynddo'i hun, ond hefyd fel rhywbeth y dylent ei arsylwi'n fanwl, gyda'r nod clir o weld sut y gall wella dysgu.

Awyr Agored
Mae bod yn yr awyr agored yn cefnogi datblygiad cymdeithasol, emosiynol a chorfforol, yn ogystal â darparu cyfleoedd dilys i ddysgwyr ddatblygu a chadarnhau sgiliau trawsgwricwlaidd. Mae'r awyr agored yn trawsnewid cysyniadau haniaethol yr ystafell ddosbarth yn brofiadau ymarferol, bywyd go iawn wrth gefnogi datblygiad corfforol, meddyliol a chymdeithasol cyfannol plant. Mae'n dyfnhau eu cysylltiad â natur ac yn hyrwyddo dysgu mwy cynhwysol a diddorol. Mae'n darparu cyfleoedd diddiwedd ar gyfer archwilio, arbrofi a dysgu cyd-destunol. Yn Y Fenni, mae dysgu yn yr awyr agored o'r pwys mwyaf. Rydym yn sicrhau bod gweithgareddau ac adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol i wella ac ymgysylltu â dysgu plant.

Asesu ac Adborth
Gosodwn dargedau academaidd ar gyfer y plant ym mhob blwyddyn academaidd ac rydyn ni'n rhannu'r targedau yma gyda'r plant a'u rhieni. Rydyn ni'n adolygu cynnydd pob plentyn yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn academaidd a gosodwn dargedau newydd pan fo'r angen. Defnyddir 'mini plenaries' i ailgyfeirio neu ailffocysu'r wers os oes angen. Rydym yn gwerthuso pob gwers gan ganolbwyntio ar ddilyniant sgiliau disgyblion, fel y gallwn addasu ein haddysgu yn y dyfodol. Rydym yn annog dysgu cydweithredol, lle mae dysgwyr yn dysgu oddi wrth ei gilydd mewn parau a grwpiau bach. Rydym hefyd yn annog dysgwyr i feddwl am eu dysgu a myfyrio arno, er mwyn ymestyn eu meddwl a gwneud cysylltiadau

Cynllunio a pharatoi effeithiol gydag amcanion dysgu clir wedi cynllunio ar y cyd.
Rydym yn cynllunio gwersi sy'n briodol i'w datblygiad ac yn ddiddorol gyda meini prawf llwyddiant clir. Daw'r amcanion o Gwricwlwm 2022. Mae ein cynlluniau gwers yn cynnwys gwybodaeth am y tasgau sy'n mynd i gael eu hasesu ac rydym yn gwerthuso'r gwersi ar y cynllun pythefnosol. Yna defnyddir y gwerthusiadau hyn i gynllunio'r pythefnos nesaf o waith. Rydym yn cyflwyno gwybodaeth mewn camau bach ac yn adeiladu ar wybodaeth flaenorol. Cymhwyswn ein dealltwriaeth o'r cof gweithredol a'r cof hirdymor wrth gynllunio. Rydym yn sicrhau bod plant yn cael y cyfle i ymarfer yn ddyddiol i osgoi gorlwytho gwybyddol a chefnogi trosglwyddo gwybodaeth i gof tymor hir. Cyflwynir deunydd newydd fesul cam, gan gysylltu syniadau newydd yn benodol â gwybodaeth bresennol. Sicrhawn fod unrhyw wersi, neu ddysgu yn berthnasol i ddilyniant ehangach gwaith, ac rydym yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir ar ddiwedd y wers ac erbyn diwedd yr uned waith - strategaeth cynllunio yn ôl.

Gwybodaeth, dealltwriaeth ac eglurder y pwnc
Rydym yn ymdrechu i gael cynnwys a gwybodaeth dwfn a rhugl am y cwricwlwm. Mae hefyd yn bwysig bod gennym wybodaeth am feddwl a chamsyniadau myfyrwyr fel y gallwn gyflwyno gwersi yn effeithiol.

Ansawdd y cyfarwyddyd a gwneud y mwyaf o'r cyfle i ddysgu
Mae ymchwil yn pwysleisio budd metawybyddiaeth addysgu penodol i gefnogi dysgu annibynnol. Mae cwestiynu yn un o'r arfau dysgu mwyaf effeithiol sydd gan athro ar gyfer cynyddu her a dyfnhau gwybodaeth ac mae'n annog datblygiad sgemata mwy cymhleth. Rydyn ni'n dechrau gyda chwestiynau lefel isel (beth? pryd? pwy?) cyn symud ymlaen at gwestiynau lefel uwch myfyriol a gwerthusol (pam? Sut?) sy'n annog disgyblion i ddadansoddi, cymharu â chyfiawnhau. Rydym yn darparu digon o amser meddwl ac yn cynllunio deialog bwrpasol o ansawdd uchel i annog disgyblion i feddwl yn ddwfn a dyfnhau

dealltwriaeth. Wrth gyflwyno testun newydd rydyn ni'n darparu fersiwn syml neu dasg wedi scaffald i'r plant. Pan mae gwybodaeth wedi gwreiddio, bydd angen llai cefnogaeth / scaffald. Gwahaniaethir y sgaffaldiau i gwrdd ag anghenion pob disgybl.Defnyddir enghreifftiau yn aml i sicrhau dealltwriaeth disgyblion. Trwy sicrhau ein bod yn modelu, yn sgaffaldio ac yn cynllunio cwestiynau'n ofalus, rydym yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei gwreiddio ac y gellir ei hadalw'n gywir ac yn awtomatig. Er mwyn i blant fod yn wirioneddol annibynnol, mae angen digon o wybodaeth flaenorol arnynt ac arfer effeithiol dan arweiniad yn gyntaf. Credwn fod dysgu dwfn a metawybyddiaeth yn digwydd pan fydd plant yn golygu ac yn ailddrafftio eu gwaith. Mae hon yn broses bwysig a rhaid rhoi amser a chyfleoedd i blant wneud hyn yn effeithiol.

Creu amgylchedd cefnogol.

Mae pob aelod o'r tîm addysgu yn Ysgol Gymraeg Y Fenni yn gwneud ymdrech arbennig i feithrin perthynas dda gyda phob plentyn. Rydyn ni'n trin y plant yn garedig a gyda pharch. Mae'r holl athrawon yn dilyn polisi'r ysgol ynglŷn â disgyblaeth a rheoli dosbarth. Gyda'r plant rydyn ni'n cytuno ar ac yn gosod còd ymddygiad y dosbarth. Disgwyliwn i bob plentyn i gadw at hyn er mwyn hybu'r awyrgylch dysgu gorau posibl i bawb. Rydym yn canmol ymdrechion y plant, gan helpu felly i feithrin agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu yn gyffredinol.

Rydyn ni'n sicrhau bod tasg a gweithgaredd yn ddiogel. Pan fyddwn ni'n trefnu i fynd â'r plant ar ymweliad oddi ar dir yr ysgol rydyn ni'n rhoi gwybod i rieni ac yn cwblhau asesiad risg ar Evolve.

Defnyddiwn gynorthwywyr dosbarth a help oedolion eraill pan fydd hynny'n bosibl. Yn aml, maent yn gweithio gyda phlant unigol ac weithiau gyda grwpiau bychain. Mae'r cynorthwywyr hefyd yn ganolog i'r broses addysgu ar lawr y dosbarth.

Mae ein hystafelloedd dosbarth yn cynnig awyrgylch dysgu atyniadol. Dylai arddangosfeydd helpu i gofio, ysgogi meddwl pellach, rhoi gwybodaeth newydd, gwneud cysylltiadau, dathlu cyflawniad, atgoffa plant o reolau a thargedau ac ysgogi plant tuag at ddysgu pellach. Credwn fod amgylchfyd ysgogol yn creu hinsawdd dda ar gyfer dysgu, a bod ystafell ddosbarth cyffrous yn annog defnydd annibynnol o'r adnoddau a gwaith o safon uchel.

Datblygiad Proffesiynol

Mae ein holl staff addysgu yn ystyried eu cryfderau a'u meysydd i wella ac yn cynllunio eu datblygiad proffesiynol yn unol â hyn. Rydyn ni'n gwneud y cyfan sydd o fewn ein gallu i ddatblygu sgiliau ein staff addysgu, fel y gallant wella eu perfformiad yn barhaus.

Rydyn ni'n cynnal ein haddysgu a'n dysgu mewn awyrgylch o barch ac ymddiriedaeth.

Egwyddorion ar Waith

Yn llyfryn Tom Sherrington Rosenshine's Principles in Action (2019) mae'n rhoi esboniad rhagorol o Egwyddorion Ar Waith Rosenshine mewn ffordd glir a syml. Rydyn yn dilyn y strategaethau yma wrth addysgu.

1. Dechrau gwers gydag adolygiad byr o ddysgu blaenorol
2. Cyflwyno deunydd newydd fesul cam gydag ymarfer y myfyriwr ar ôl pob cam
3. Cyfyngu ar faint o ddeunydd y mae myfyriwr yn ei dderbyn ar un adeg
4. Rhoi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir a manwl
5. Gofyn nifer fawr o gwestiynau a gwiriwch am ddealltwriaeth
6. Darparu lefel uchel o ymarfer gweithredol i bob myfyriwr
7. Arwain y myfyrwyr wrth iddynt ddechrau ymarfer
8. Meddwl yn uchel a modelu camau
9. Darparu modelau o broblemau a weithiwyd allan
10. Gofyn i'r myfyrwyr egluro beth roedden nhw wedi'i ddysgu
11. Gwirio ymatebion yr holl fyfyrwyr
12. Darparu adborth systematig a chywiriadau
13. Defnyddio fwy o amser i roi esboniadau
14. Darparu lawer o enghreifftiau
15. Ailddysgu deunydd pan fo angen
16. Paratoi myfyrwyr ar gyfer ymarfer annibynnol
17. Monitro myfyrwyr pan fyddant yn dechrau ymarfer annibynnol

Rhinweddau
Fel ysgol cytunwyd i ddatblygu 5 rhinwedd penodol yn y plant. Y rhinweddau cytunwyd arni yw :

Annibyniaeth - Gallu ffeindio offer fy hun, Datblygu sgiliau sylfaenol, Gallu gweithio gydag eraill, Dilyn cyfarwyddiadau, Gallu aros ar dasg, 3 cyn fi.
Gwytnwch - Dathlu a derbyn camgymeriadau, Trio eto a thrio pethau newydd, Dyfal donc a dyr y garreg, Datblygu meddwl medrus, Derbyn heriau.
Gallu i ddarllen - Meistroli sgiliau darllen sylfaenol, Cael pleser allan o ddarllen, Defnyddio darllen i ddeall y byd o gwmpas, Ehangu dychymyg, Awydd i ddarllen ystod eang o ddeunyddiau darllen.
Hunan - Werth - Mynegi fy hun mewn ffordd hyderus, Deall bod fy llais yn bwysig, Defnyddio iaith bositif wrth siarad am fy hun, Dathlu mai fi yw fi, Adnabod fy llwyddiannau personol ac academaidd.
Barod i - Barod i wneud fy ngorau glas, Barod i siarad Cymraeg, Barod i feddwl cyn gwneud, Barod i rannu a gwrando, Barod i fwynhau, Barod i helpu.

Fel ysgol rydym yn dathlu a hyrwyddo'r rhinweddau o fewn tasgau, yn cyfeirio atynt yn ein gwersi a sicrhau dealltwriaeth gan ddysgwyr a staff. Rydym yn sicrhau bod dysgwyr yn medru siarad am y rhinweddau a rhoi enghreifftiau ohonynt.

Rôl y Llywodraethwyr

Mae ein llywodraethwyr yn cynorthwyo, yn monitro ac yn adolygu'r polisi dysgu ac addysgu. Maent yn:

- cefnogi'r defnydd addas o strategaethau addysgu wrth ddosrannu adnoddau'n effeithiol;
- sicrhau bod adeiladau a thir yr ysgol yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn cefnogi'r dysgu a'r addysgu;
- monitro'r strategaethau addysgu yn wyneb rheolau iechyd a diogelwch;
- monitro'r effeithiolrwydd y strategaethau dysgu ac addysgu yn nhermau codi safon cyrhaeddiad y plant;
- sicrhau bod datblygiad a pherfformiad y cynllun rheoli staff yn annog safon uchel o addysgu;
- monitro'r effeithiolrwydd y polisi dysgu ac addysgu trwy gyfrwng proses hunanwerthuso'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau gan arweinyddion meysydd dysgu, adroddiadau'r pennaeth, cymryd rhan mewn teithiau ar waith rheolaidd ac adolygiad o'r sesiynau hyfforddiant mewn swydd.

Rôl y Rhieni
Credwn fod gan rieni rôl hanfodol er mwyn cynorthwyo eu plant i ddysgu. Rydyn ni'n gwneud popeth a allwn i roi gwybod i'r rhieni am ddatblygiad eu plant, trwy:

- gynnal cyfarfodydd cynnydd er mwyn esbonio'r strategaethau addysgu rhifedd, llythrennedd ac addysg iechyd:
- rannu gwybodaeth ar ddechrau bob tymor sy'n amlinellu'r pynciau bydd y plant yn eu hastudio yn ystod y tymor.
- ddarparu adroddiadau cyson sy'n rhoi gwybodaeth i rieni am ddatblygiad eu plentyn a'r ffordd ymlaen er mwyn datblygu ymhellach;
- esbonio sut y gall rhieni gynorthwyo gyda gwaith cartref. Rydyn ni'n awgrymu, er enghraifft, bod y plant yn y blynyddoedd cynnar yn cyd-ddarllen gyda'u rhieni, a bod y plant hynaf yn derbyn cymorth gyda'u prosiectau a'u gwaith ymchwil.

Credwn fod cyfrifoldeb gan rieni i gefnogi eu plant a'r ysgol er mwyn gweithredu'r polisïau. Fe fydden ni'n hoffi petai rieni:
- yn sicrhau bod record presenoldeb eu plant mor uchel â phosibl;
- yn sicrhau bod y plant yn dod i'r ysgol yn y wisg gywir ac yn dod â'r dillad ymarfer corff cywir;
- yn gwneud eu gorau i gadw'r plant yn ddigon iach i fynychu'r ysgol;
- yn hysbysu'r ysgol os oes materion y tu allan i'r ysgol a fyddai'n debygol o gael effaith ar ymddygiad y plentyn;
- yn hybu agwedd gadarnhaol tuag at ysgol a'r broses o ddysgu yn gyffredinol;
- yn cwblhau'r agwedd gadarnhaol tuag at ysgol a'r broses o ddysgu yn gyffredinol;
- yn cwblhau'r gofynion sy'n cael eu gosod allan yn y cytundeb cartref-ysgol.

Monitro ac Adolygu
Mae cysondeb yn bwysig ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae'r polisi hwn yn gosod disgwyliadau clir sy'n cefnogi dysgu plant. Dylid ei ddilyn mor gyson â phosibl ar draws yr ysgol gyfan.

Rydyn ni'n monitro'r addysgu yn rheolaidd gan ddilyn canllawiau ein polisi rheoli perfformiad a hefyd amserlen monitro. Defnyddir y 'Fframwaith Rhagoriaeth mewn Dysgu ac Addysgu' fel un modd o fesur ansawdd dysgu ac addysgu ar draws yr ysgol.

Rydyn ni'n ymwybodol o'r angen i adolygu'r polisi dysgu ac addysgu yn gyson, fel y gallwn ystyried datblygiadau newydd, newidiadau yn y cwricwlwm, datblygiadau mewn technoleg neu newidiadau yn amgylchfyd yr ysgol. Byddwn yn adolygu'r polisi yn unol â'r patrwm yn y Cynllun Datblygu Ysgol.


Introduction

At Ysgol Gymraeg Y Fenni we believe in the concept of life-long authentic learning, we believe that learning is a continuous process for adults and children. We believe that learning should be a rewarding process and enjoyable for all; it should be fun, inclusive and engaging. Through our teaching we provide the children with the skills, knowledge, understanding and values that will enable them to become informed and ethical citizens. We believe that enriching learning experiences help ignite imagination and unlock potential. We aim to nurture confident, independent learners with a lifelong love for learning. We have the highest expectation of all children and children are inspired and challenged to excel and progress along their individual learning journeys. Our curriculum focuses on developing an understanding of our heritage, culture and local area. A strong sense of Welsh identity underpins our teaching and learning practise, helping learners connect with their language and local identity.

We aim to provide a broad and balanced curriculum with high quality experiences which motivate and engage learners. We also believe that the Four Purposes should be central to all learning and teaching activities that take place in our school. The Four Purposes of the curriculum, as outlined in Successful Futures, have underpinned all the planning and development of Curriculum for Wales 2022. Our curriculum includes all learning experiences and assessment activities designed to achieve the Four Purposes of the curriculum, namely to develop children and young people to be:

- ambitious, capable learners, ready to learn throughout their lives
- enterprising, creative contributors, ready to play a full part in life and work
- ethical, informed citizens of Wales and the world
- healthy, confident individuals, ready to lead fulfilling lives as valued members of society.

The policy recognises the importance and value of the 12 Pedagogical principles which underpin the new Curriculum for Wales.



Aim and Objectives

We believe that people learn in different ways. In our school we provide rich and varied experiences that allows children to fully develop their skills and abilities.

Through our teaching we intend to

- enable the children to become confident, ambitious, resourceful, investigative and independent learners.
- model the approach that making mistakes is positive and is how we learn. Encourage risk taking and be open to new things.
- promote children's self-confidence and celebrate that ‘this is me’. Understand that their voice is important.

- develop and encourage a Growth Mindset.
- develop children's self-esteem, and encourage the children to respect others, and their ideas, attitudes, values and feelings.
- show respect for other cultures, and promote a positive attitude towards others.
- enable children to understand their community and help them to feel a valued part of that community.
- support the children to grow into principled, reliable, independent and positive citizens.
- develop healthy children who understand the importance of keeping fit and are aware of thoughtful strategies to help them deal with challenging situations for them.
- enable children to think creatively and develop their creativity by performing, carrying out artwork and so on.

Successful Teaching and Learning

We recognise that people learn in different ways, and we see the need to develop strategies that allow children to learn in ways that suit them. The psychologist Howard Gardner identifies seven main sections of ability: linguistic, mathematical/logical, visual/spatial, kinaesthetic, musical, interpersonal/group working, and interpersonal/reflective. We take this into account when planning our lessons and teaching style.

We give children the opportunity to learn in different ways, for example:

exploring and solving problems
investigating and discovering
group work
working in pairs
independent working
working as a whole class
asking and answering questions
using ICT equipment
fieldwork and educational visits
creative activities;
watching clips and responding to music or material on tape
discussions, role play and oral presentations;
designing and creating things;
participating in athletic or physical activities.

When teaching we focus on motivating children, and building on their skills, knowledge and understanding of the curriculum. We use the school curriculum planning as a guide to our teaching. The plans set out the details of what is to be taught to each school year and each Progress Step. Children learn through first-hand experience, both inside and outside of the classroom.

We base our teaching on our knowledge of the children's level of attainment. Our main focus is to further develop the children's skills and knowledge, extending all children and aiming to educate them about the importance of developing a mindset of growth. We strive to ensure that the tasks are appropriate to the individual children's level of ability. Activities and approaches are differentiated according to need in order to ensure learners are effectively supported and challenged. When planning work for the children with additional needs we pay due regard to the information and targets set out in the Personal Development Plans/One Page Profiles. We have high expectations of all children, and believe that their work here at Ysgol Gymraeg Y Fenni is of the highest possible standard.

To ensure that our pupils take ownership of their learning, when planning cross curricular themes or rich tasks, pupils' input will be at the heart of planning and teaching and learning.

Teaching and Learning strategies

Our school staff are our most influential teaching and learning resource. We believe that effective teaching consists of the elements listed below:

Play and play based learning
Outdoor learning
Effective planning and preparation with clear shared learning objectives.
Knowledge, understanding and clarity of the topic.
Creating a supportive environment.
Maximising the opportunity to learn.
Quality of instruction
Classroom management (Please see behaviour management policy)
Professional Development
Assessment and Feedback (Please see assessment policy)

Play and play-based learning

Play is a fundamental right for all learners. Children have a strong desire to play. Through play and playful experiences, learners are able to find ways to experience a range of emotions and learn about the world they inhabit with others. Play and play-based learning supports holistic development across the curriculum. It should be valued by all practitioners as both an end in itself and as something that they should observe closely with the clear aim of seeing how it can enhance learning.

Outdoor Learning

Being outdoors supports social, emotional and physical development, as well as providing authentic opportunities for learners to develop and consolidate cross-curricular skills. The outdoors transforms abstract classroom concepts into hands-on, real-life experiences while supporting children's holistic physical, mental, and social development. It deepens their connection to nature and promotes more inclusive and engaging learning. It provides endless opportunities for exploration, experimentation and contextual learning. At Y Fenni, outdoor learning is of upmost importance. We ensure that activities and resources are used effectively to enhance and engage children's learning.

Assessment and Feedback

We set academic targets for the children in each academic year and share these targets with the children and their parents. We regularly review each child's progress throughout the academic year and set new targets when needed. Mini plenaries are used to redirect or refocus the lesson if necessary. We give regular constructive feedback. We evaluate all lessons, focussing on pupil skill progression, so that we can modify and improve our teaching in the future. We encourage collaborative learning where learners learn from each other in pairs and small groups. We also prompt learners to think about and reflect upon their learning in order to extend thinking and make connections.

Effective planning and preparation with clear shared learning objectives

We plan developmentally appropriate and engaging lessons with clear success criteria. The objectives are taken from the 2022 Curriculum. Our lesson plans include information about the tasks that are going to be assessed and we evaluate the lessons on the plan. These evaluations are then used to plan the next fortnight of work. We introduce information in small steps and build on prior knowledge. We apply our understanding of the working memory and long-term memory when planning. We ensure that children have the opportunity to practise daily to avoid cognitive overload and support the transfer of information to long term memory. New material is introduced in steps, explicitly linking new ideas to existing knowledge. We ensure that any lessons, or learning relates to a broader sequence of work, and we are clear about what is expected at the end of the lesson and by the end unit of work - Backwards planning strategy.

Knowledge, understanding and clarity of the topic

We strive to have deep and fluent content and curriculum knowledge. It is also important that we have knowledge of students' thinking and misconceptions so that we can effectively deliver lessons.

Quality of instruction and maximising the opportunity to learn

Research emphasises the benefit of explicit teaching metacognition to support independent learning. Questioning is one of the most effective learning tools a teacher has for increasing challenge and deepening knowledge and encourages the development of more complex schematas. We start with lower order questions what?when?who? to establish foundations before moving onto reflective and evaluative higher order questions why? how? to encourage pupils to analyse, compare and justify. We provide plenty of thinking time and plan purposeful dialogue and high-quality classroom talk to encourage pupils to think out loud and deepen understanding. When introducing a new topic we provide the children with a simplified

or limited version of a task. When knowledge becomes secure, less support / scaffolding is needed. Scaffolding is differentiated to meet the needs of every pupil. Examples are frequently used to secure pupils' understanding. By ensuring that we are modelling, scaffolding and carefully planning questions we ensure that information is embedded and can be recalled accurately and automatically. In order for children to be truly independent they need sufficient prior knowledge and effective guided practice first. We believe the deep learning, meta-cognition occurs when children edit and redraft their work. This is an important process and children must be given time and opportunities to do this effectively.

Creating a supportive environment.

All members of the teaching team at Ysgol Gymraeg Y Fenni make a special effort to build good relationships with all children. We treat the children kindly and with respect. All teachers follow the school's policy on behaviour and classroom management. With the children we agree on and set the class behaviour agreement. We expect all children to adhere to this in order to promote the best possible learning atmosphere for all. We praise the children's efforts, thereby helping to build positive attitudes towards learning in general.

We make sure that a task and activity is safe. When we arrange to take the children on a visit off the school grounds, we inform parents and complete a risk assessment on Evolve.

We use classroom assistants and other adult help where possible. They often work with individual children and with small groups. Our assistants are central to the teaching process on the classroom floor.

Our classrooms offer an attractive calming, learning atmosphere. Displays should aid recall, stimulate further thinking, give new information, make connections, celebrate achievement, remind children of rules and targets and motivate children towards further learning. We believe that a stimulating environment creates a good climate for learning, and that an exciting classroom encourages independent use of the resources and high quality work.

Professional Development

All our teaching staff consider their strengths and areas for development and plan their professional development accordingly. We conduct our teaching and learning in an atmosphere of respect and trust.

Principles in action

In Tom Sherrington booklet Rosenshine's Principles in Action (2019) he gives an excellent explanation of Rosenshine's Principles In Action in a clear and simple way. We follow these strategies when teaching.

1. Begin a lesson with a short review of previous learning
2. Present new material in small steps with the student practice after each step
3. Limit the amount of material student receive at one time
4. Give clear and detailed instructions and explanations
5. Ask a large number of questions and check for understanding
6. Provide a high level of active practice for all students
7. Guide students as they begin to practice
8. Think aloud and model steps
9. Provide models of worked-out problems
10. Ask students to explain what they had learned
11. Check the responses of all students
12. Provide systematic feedback and corrections
13. Use more time to provide explanations
14. Provide many examples
15. Re-teach material when necessary
16. Prepare students for independent practice
17. Monitor students when they begin independent practice

Virtues

As a school we agreed to develop 5 specific virtues in the children. The agreed virtues are:

Independence - Being able to find my own resources, Developing basic skills, Being able to work with others, Following instructions, Being able to stay on task, Trying three times before asking for help.

Resilience - Celebrating and accepting mistakes, Trying again and trying new things, Persisting until the goal is achieved, Developing a growth mindset, Accepting challenges.
Reading Ability - Mastering basic reading skills, Finding pleasure in reading, Using reading to understand the world around me, Expanding the imagination, Having a desire to read a wide range of materials.
Self-Worth - Expressing myself confidently, Understanding that my voice is important, Using positive language when speaking about myself, Celebrating being myself, Recognizing my personal and academic achievements.
Ready to - Ready to do my absolute best, Ready to speak Welsh, Ready to think before acting, Ready to share and listen, Ready to enjoy, Ready to help.

As a school we celebrate and promote the virtues/ qualities within tasks, refer to them in our lessons and ensure understanding from learners and staff. We ensure that learners are able to talk about the qualities and give examples of them.

Role of Governors
Our governors support, monitor and review the learning and teaching policy. They:

- support the suitable use of teaching strategies in the effective apportionment of resources.
- ensure that school buildings and grounds are used in the most effective way to support learning and teaching.
- monitoring the teaching strategies in the face of health and safety rules.
- monitor the effectiveness of learning and teaching strategies in terms of raising the standard of children's attainment.
- ensure that the development and performance of the staff management plan encourages a high standard of teaching.
- monitor the effectiveness of the learning and teaching policy through the school's self-evaluation process. This includes reports from learning area leaders, headteacher's reports, participation in regular learning walks and a review of in-service training sessions.

Role of Parents
We believe that parents have a vital role to play in supporting their children to learn. We are doing all we can to inform parents of their children's development, by:

- holding progression meetings to explain the numeracy, literacy and health education teaching strategies:
- sharing information at the beginning of each term outlining the topics that the children will study during term time.
- providing regular reports that provide parents with information about their child's development and the way forward to develop further.
- explaining how parents can assist with homework. We suggest, for example, that the children in the early years co-read with their parents, and that the oldest children receive support with their projects and research.

We believe that parents have a responsibility to support their children and the school in order to implement the policies. We would like parents to:

- ensure that their children's attendance record is as high as possible.
- ensure that the children come to school in the right uniform/ PE kit.
- do their best to keep the children healthy enough to attend school.
- notify the school if there are matters outside the school which would be likely to have an impact on the child's behaviour.
- promote a positive attitude towards school and learning in general.
- reinforce the positive attitude towards school and the process of learning in general.
- adhere to the requirements set out in the home-school agreement.

Monitoring and Review
Consistency is important in all aspects of school life. This policy sets out clear expectations that support children's learning. It should be followed as consistently across the whole as possible.

We monitor teaching regularly following the guidance of our performance management policy and also a monitoring timetable. The 'Excellence in Teaching and Learning Framework' is used as one means of measuring the quality of learning and teaching across the school.

We are aware of the need to keep the learning and teaching policy under constant review so that we can consider new developments, changes in the curriculum, developments in technology or changes in the school environment. We will review the policy in line with the pattern in the School Development Plan.